



Amgueddfa
Forwrol
Llŷn
Maritime Museum



Tymor Ha' Bach Mihangel 2020

Newyddion da ! Rydym yn '**Barod Amdani / Ready to Go**' yn swyddogol. Ar ôl cyfnod prysur o addasu'r Amgueddfa yn dilyn asesiad risg cynhwysfawr rydym yn bwriadu agor am dymor byr. Bydd y drefn ymweld yn newydd, er eich lles chwi a'n gweithwyr ni. Ein blaenoriaeth yw cadw pawb yn ddiogel ac yn iach.

Rhaid cysylltu â ni ymlaen llaw i drefnu ymweld. Cewch ateb o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Ni chaiff **neb** ddod i mewn i'r Amgueddfa heb drefniant .

Ffônïwch 01758 721 313 neu 07917 700 851
(gan adael neges gyda'ch enw a rhif ffôn cyswllt)

ebostiwch aflmm@yahoo.com

neu llenwch y ffurflen ar ein gwefan: www.llyn-maritime-museum.co.uk

er mwyn trefnu eich ymweliad unigryw ag Amgueddfa Forwrol Llŷn yn 2020.

Bydd arddangosfa '**Arteffactau Archeolegol**' i'w gweld, addasiad o arddangosfa boblogaidd o ddarganfyddiadau archeolegol lleol a gynhaliwyd yn 2017.

Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i'w gweld eto!

Er y newidiadu anorfod, bydd y croeso yr un mor gynnes ag erioed.
Cefnogwch eich Amgueddfa leol !



Gyda diolch i'r Gronfa Dreftadaeth am eu cymorth ariannol.